



**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet**

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 19 Ionawr 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cyngorydd(wyr)**

C Anderson  
H J Gwilliam  
A Pugh

**Y Cyngorydd(wyr)**

R Francis-Davies  
D H Hopkins  
R V Smith

**Y Cyngorydd(wyr)**

L S Gibbard  
A S Lewis  
A H Stevens

**Swyddog(ion)**

Huw Evans  
Tracey Meredith  
Martin Nicholls  
Ben Smith  
Ness Young

Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd  
Prif Swyddog Cyfreithiol  
Prif Weithredwr  
Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro

**Hefyd yn bresennol**

Y Cyngorydd(wyr): C M J Evans

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cyngorydd(wyr): E J King

---

**113. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

- 1) Datganodd y Cyngorydd A H Stevens gysylltiad personol a rhagfarnol declared â Chofnod 116 "Cwestiynau gan y cyhoedd" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.
- 2) Datganodd y Cyngorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 119 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.
- 3) Datganodd y Cyngorydd H J Gwilliam gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 119 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

- 4) Datganodd y Cynghorydd A H Stevens gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 125 "Diweddarau Adroddiad Rheoli Ystadau ar Faes Awyr Abertawe" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.
- 5) Datganodd y Cynghorydd A H Stevens gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 127 "Diweddarau Adroddiad Rheoli Ystadau ar Faes Awyr Abertawe" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

#### **114. Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

- 1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2022.
- 2) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Rhagfyr 2022.

#### **115. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

##### **1) Cais llwyddiannus ar gyfer Cronfa Codi'r Gwastad**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Llywodraeth y DU wedi cymeradwyo cais Codi'r Gwastad gan Gyngor Abertawe ar gyfer y prosiect sydd â'r nod o adfywio Cwm Tawe Isaf ymhellach.

Mae'r prosiect mawr newydd sy'n diogelu treftadaeth ddiwydiannol Abertawe, yn adfywio coridor afon Tawe ac yn creu swyddi ac yn denu buddsoddiad, wedi cael hwb ariannol o £20 miliwn.

#### **116. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Gofynnodd Bob Oliver, Mark Anderson, ac Alan Bailey gwestiynau i'r cyhoedd mewn perthynas â Chofnod 125 "Diweddarau Adroddiad Rheoli Ystadau ar Faes Awyr Abertawe."

Ymatebodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad ac Arweinydd y Cyngor.

#### **117. Hawl i holi cynghorwyr.**

Gofynnodd y Cynghorydd C M J Evans gwestiynau mewn perthynas â Chofnod 125 "Diweddarau Adroddiad Rheoli Ystadau ar Faes Awyr Abertawe."

Ymatebodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad ac Arweinydd y Cyngor.

#### **118. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.**

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALI) ar gyrrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

- 1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu:

1)	Ysgol Gynradd y Clâs	Lesley Evans
2)	Ysgol Gynradd Cwmglas	Helen Usiobaifo
3)	Ysgol Gynradd St Thomas	Y Cyng. Hayley Gwilliam
4)	Ysgol Gynradd y Garreg Wen	Lauren Brown
5)	Ysgol Gyfun Bryn Tawe	Janet Rowlands

**119. Ffioedd Parcio.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer prisiau parcio arfaethedig ar gyfer meysydd parcio'r cyngor. Roedd yr adroddiad yn egluro effaith ariannol y cynigion parcio presennol ar gyfer ceir ac mae'n nodi'r cynigion i fodloni'r cynnydd mewn targedau incwm a osodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

**Penderfynwyd:**

- 1) Rhoi'r prisiau parcio arfaethedig y manylir arnynt yn yr adroddiad ar waith ar gyfer pob maes parcio o 1 Ebrill 2023 yn amodol ar ganlyniad Ymgynghoriad Cyllideb y Cyngor a chymeradwyo Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24.
- 2) Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Priffyrdd a Chludiant ac Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd gynyddu taliadau parcio'n unol â chyfradd chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu.

**120. Fframwaith Deunyddiau Adeiladu Cyffredinol.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ddyfarnu cytundeb fframwaith ar gyfer cyflenwi Deunyddiau Adeiladu Cyffredinol, i hwyluso archebion uniongyrchol ar gyfer cynnal a chadw'r stoc tai a phrosiectau adeiladau cyhoeddus.

**Penderfynwyd:**

- 1) Bod penodiad y Cyflenwyr a restrir yn Atodiad A o'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo i'w gynnwys yn y Fframwaith a bod y cyngor yn cael ei awdurdodi i ymrwmo i Gytundebau Fframwaith gyda phob Cyflenwr, er mwyn hwyluso contractau galw i ffwrdd o'r Fframwaith yn ôl yr angen.
- 2) Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Adeiladau a'r Prif Swyddog Cyfreithiol yn ôl yr angen i gymeradwyo telerau'r Cytundebau Fframwaith ac unrhyw gontractau galw i ffwrdd yn y dyfodol o dan y Cytundeb Fframwaith.

**121. Adolygiad o'r Datganiad Polisi ar gyfer Trwyddedu.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar gyfer drafft y Polisi Trwyddedu diwygiedig i'w gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad.

**Penderfynwyd:**

- 1) Cytuno ar y newidiadau arfaethedig i Ddatganiad Polisi'r cyngor ar gyfer Trwyddedu.
- 2) Cyflwyno'r polisi diwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyn adrodd yn ôl a mabwysiadu.

**122. Adolygu'r Polisi ar Drwyddedu Sefydliadau Rhyw.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i gyhoeddi'r Polisi a adolygwyd ar Drwyddedu Sefydliadau Rhyw ar gyfer ymgynghoriad.

**Penderfynwyd:**

- 1) Cadw'r "ardaloedd perthnasol" at ddibenion penderfynu ar geisiadau am sefydliadau rhyw a'r "nifer priodol" o sefydliadau rhyw ar gyfer pob ardal.
- 2) Cyhoeddi'r polisi ar gyfer ymgynghoriad cyn adrodd yn ôl i'r cyngor i'w fabwysiadu.

**123. Cynnig i Gyhoeddi Asesiad Effaith Gronnol - Canol y Ddinas.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol adroddiad a oedd yn gofyn am gytundeb i gyhoeddi'r Asesiad Effaith Cronnus drafft ar gyfer ymgynghoriad.

**Penderfynwyd:**

- 1) Cyhoeddi fersiwn ddrafft arfaethedig yr Asesiad Effaith Cronnus ar gyfer ymgynghoriad.

**124. Hysbysiadau o Gosb Benodol am dorri dyletswydd gofal deiliaid tai mewn perthynas â thipio anghyfreithlon.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i fabwysiadu a gweithredu Rheoliadau Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2019 i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig fel ymateb mwy cymesur i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar raddfa fach lle bo hynny'n briodol.

**Penderfynwyd:**

- 1) Cymeradwyo mater yr Hysbysiadau Cosb Benodedig yn unol â'r Ddeddfwriaeth.
- 2) Gosod y ffi gosb benodedig ar £300 i'w thalu o fewn 14 diwrnod gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth.
- 3) Cymeradwyo taliad cynnar o £150 os caiff ei dalu o fewn 10 niwrnod gwaith.

**125. Diweddaru Adroddiad Rheoli Ystadau ar Faes Awyr Abertawe.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Pherfformiad Corfforaethol adroddiad a oedd yn darparu diweddariad ar y gweithgareddau rheoli ystadau presennol ym Maes Awyr Abertawe a cheisiodd awdurdod i fwrw ymlaen â'r argymhellion fel y'u hamlinellir.

**Penderfynwyd:**

- 1) Yn unol â'r cyngor cyfreithiol a ddarparwyd gan swyddogion cyfreithiol y cyngor ar y cyd â'r ymgynghorwyr allanol, Geldards LLP, nad yw'r Cabinet yn gwrthwynebu egwyddor cais A.26 (Deddf Landlord a Tenant 1954) am denantiaeth newydd gyda'i denant presennol, 'Swansea Airport Limited' ond mae'n cynnig telerau prydles amgen.
- 2) Dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Eiddo a'r Prif Swyddog Cyfreithiol drafod a chytuno ar delerau priodol ar gyfer adnewyddu'r brydles i ddiogelu sefyllfa'r cyngor wrth sicrhau bod y Tenant yn parhau i fuddsoddi ymhellach yn yr ased.

**126. Gwahardd y cyhoedd**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**127. Diweddaru Adroddiad Rheoli Ystadau ar Faes Awyr Abertawe.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol adroddiad a oedd yn darparu diweddariad ar y gweithgareddau rheoli ystadau presennol ym Maes Awyr Abertawe.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.53 am

**Cadeirydd**

<b>Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol</b>	
Dyddiad cyhoeddi:	<b>19 Ionawr 2023</b>
Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben (3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi):	23.59, 24 Ionawr 2023
Penderfyniad yn dod i rym:	25 Ionawr 2023